CYNGOR SIR YNYS MÔN
ISLE OF ANGLESEY COUNTY COUNCIL

| GŴYS A RHAGLEN | SUMMONS AND AGENDA |
| --- | --- |
| ar gyfer | for an |
| CYFARFOD BLYNYDDOL O GYNGOR SIR YNYS MÔN A OHIRWYD | ADJOURNED ANNUAL MEETING OF THE ISLE OF ANGLESEY COUNTY COUNCIL |
| ar | on |
| DYDD MAWRTH<br>31 MAI 2022<br>am 2.00 o'r gloch | TUESDAY<br>31 MAY 2022<br>at 2.00 pm |

***Nodwch os gwelwch yn dda fod cyfarfodydd y Pwyllgor yn cael eu ffrydio ar gyfer eu darlledu'n fyw a'u darlledu ar wefan y Cyngor. Mae'r Awdudrod yn Rheolydd Data dan y Ddeddf Diogelu Data a bydd data a gesglir yn ystod y ffrydio byw hwn yn cael ei gadw'n unol â pholisi cytunedig yr Awdurdod.***

**R H A G L E N**

**1. DATGANIAD O DDIDDORDEB**

Derbyn unrhyw ddatganiad o ddiddordeb gan Aelod neu Swyddog mewn perthynas ag unrhyw eitem o fusnes.

**2. CYHOEDDIADAU**

Derbyn unrhyw gyhoeddiadau gan y Cadeirydd, Arweinydd y Cyngor neu'r Prif Weithredwr.

**3. AELODAETH Y PWYLLGOR GWAITH**

Yn unol â Pharagraff 4.1.1.2.7 y Cyfansoddiad, cael gwybod gan yr Arweinydd enwau'r Cynghorwyr y mae hi wedi eu dewis i fod yn Aelodau o'r Pwyllgor Gwaith, ynghyd â'u cyfrifoldebau Portffolio.

**4. CADEIRYDD Y PWYLLGOR GWASANAETHAU DEMOCRATAIDD**

Yn unol â Pharagraff 3.4.12.3 o Gyfansoddiad y Cyngor, penodi Cadeirydd ar gyfer y Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd am y flwyddyn ddinesig.

**[Noder: Paragraff 3.4.12.3.1 Penodir y Cadeirydd gan y Cyngor llawn yn ei ail gyfarfod (a ohiriwyd) o'r Cyfarfod Blynyddol ar ôl i'r Arweinydd gyhoeddi pwy yw Aelodau'r Pwyllgor Gwaith (ac os oes angen mewn cyfarfodydd eraill) trwy bleidlais gudd, a Bydd Rheol Gweithdrefn 4.1.18.5 "Pleidlais a Gofnodwyd" yn cael ei hatal ar gyfer y pwrpas hwn.**

**Paragraff 3.4.12.3.2 Ni chaiff y Cadeirydd fod yn aelod o grŵp a gynrychiolir ar y Pwyllgor Gwaith (ac eithrio mewn awdurdodau lle mae'r holl grwpiau gwleidyddol yn cael eu cynrychioli ar y Pwyllgor Gwaith, ac yn yr achos hwnnw, ni chaiff y Cadeirydd fod yn aelod o'r Pwyllgor Gwaith)].**

**5. CADARNHAU'R CYNLLUN DIRPRWYO**

Bydd y Cadeirydd yn cadarnhau'r rhan honno o'r Cynllun Dirprwyo y mae'r Cyfansoddiad yn nodi mai mater i'r Cyngor ydyw i'w chytuno (fel y nodir ym Mharagraff 3.5 o'r Cyfansoddiad).

**6. RHAGLEN CYFARFODYDD ARFEROL Y CYNGOR SIR**

Cymeradwyo'r rhaglen isod o gyfarfodydd arferol y Cyngor Sir ar gyfer y flwyddyn i ddod:-

- 13 Medi 2022 - 2.00pm
- 6 Rhagfyr 2022 - 2.00pm
- 9 Mawrth 2023 - 2.00pm

- Mai 2022 - dyddiad i'w gadarnhau

## 7. TREFNIADAU CYDBWYSEDD GWLEIDYDDOL YN Y CYNGOR

Cyflwyno adroddiad y Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd Dros Dro ar adolygiad o drefniadau cydbwysedd gwleidyddol ar Bwyllgorau yn dilyn yr Etholiad Llywodraeth Leol diweddar ar 5 Mai 2022, ac ar benodi Cynghorwyr i Bwyllgorau.

Bydd pob Pwyllgor y cyfeirir ato isod yn cyfarfod am gyfnod byr i benodi ei Gadeirydd a'i Is-Gadeirydd ei hun (ac eithrio'r Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd a fydd wedi cael sylw dan eitem 4 uchod): -

- Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol
- Pwyllgor Sgriwtini Partneriaeth ac Adfywio
- Pwyllgor Cynllunio a Gorchmynion
- Pwyllgor Trwyddedu
- Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio
- Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd (Is-Gadeirydd)

**[Noder: anfonwyd hysbysiadau ar wahân at holl Aelodau ac aelodau cyfetholedig perthnasol ar gyfer y cyfarfodydd uchod].**

## 8. CYNRYCHIOLAETH AR GYRFF ALLANOL

Cyflwyno adroddiad gan y Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd Dros Dro.